
Plaid Cymru
The Party of Wales

# BRWYDRO'N GALED DROS GYMRU

## MANIFFESTO AR GYFER ETHOLIAD SENEDD EWROP 2004



# EIN GWELEDIGAETH

Daeth rôl Cymru yn Ewrop yn elfen ganolog yng ngweledigaeth Plaid Cymru o'n lle haeddiannol yn y byd. Mae 2004 yn flwyddyn dyngedfennol i Ewrop gan mai yn y flwyddyn hon daw'r ehangu yn realiti. Anelwn ninnau at roi Cymru yn nghanol y drefn lywodraethol yn Ewrop yn y cyfnod trawsnewidiol hwn pan y genir yr Ewrop newydd.

Wrth groesawu ein dinasyddion Ewropeaidd newydd, mae Plaid Cymru yn dymuno bod yn enghraifft gref o genedl Ewropeaid ddylanwadol a rhagweithiol. Yn Ewrop, mae Plaid Cymru yn ennill i Gymru y parch ar y lefel rhyngwladol yr ydym wedi'i haeddu ers tro byd. Dyna pam y mae Ewrop yn bwysig a dyna pam fod Plaid Cymru – unig lais Cymru yn Ewrop – yn hanfodol.

Gyda dau Aelod Seneddol Ewropeaidd (ASE) Plaid Cymru, Jill Evans ac Eurig Wyn, enillodd Cymru le blaenllaw ym Mrwsel. O'r herwydd cymerwyd camau breision i wella bywydau a hawliau pobl yng Nghymru, ledled Ewrop a thu hwnt.

**Chwaraeodd ein ASEau ran flaenllaw yn y gwaith o lunio deddfwriaeth newydd ar hawliau gweithwyr, diogelwch a safonau bwyd, diwygio CAP, cadw Cymru'n rhydd o GM, gwell labelu bwyd, hyrwyddo cynnyrch Cymreig yn gynnyrch o safon, a chryfhau safiad Ewrop ar sefyllfa ieithoedd lleiafrifol**.

Plaid Cymru yw'r unig blaid wleidyddol yng Nghymru sydd drwyddi a thro wedi lleisio gwerthoedd a buddiannau pobloedd Cymru ar faterion cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Plaid Cymru yn ddewis unigryw ar gyfer yr etholiad Ewropeaidd gan ein bod yn blaid sydd ***ond*** yn cynrychioli Cymru.

> Nid yw Plaid Cymru yn cynrycholi buddiannau ffermwyr mawr De Ddwyrain Lloegr. Yn hytrach, buddiannau ffermwyr Cymru yw swm a sylwedd ein gwaith polisi amaethyddol.
>
> Nid ydym yn dilyn llinell llywodraeth Prydain ar y rhyfel neu ar faterion tramor eraill. Yn hytrach, lleisiwn i'r byd yr hyn sydd gan Gymru i'w ddweud ar y fath faterion hollbwysig.
>
> Nid ydym yn plygu i fuddiannau cyfnewidfa stoc Llundain ar draul swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru. Mae Plaid Cymru yn gwbl rhydd i gynrycholi Cymru yn Ewrop.

Yn y manifesto hwn, rydym yn amlinellu ein blaenoriaethau mewn pum ardal allwedol yn mhle mae'r Senedd Ewropeaidd yn chwarae rol hafodol: materion rhyngwladol; yr economi; bwyd a ffermio; gwastraff a'r amgylchedd, hawliau ein pobl.

**Plaid Cymru yw eich llais dros Gymru yn Ewrop. Ymdrechwn yn ddiflino i wneud ein llais yn gryfach fyth.**

**GORFODWCH Y DEYRNAS GYFUNOL A'R BYD I ROI SYLW I GYMRU – PLEIDLEISIWCH I BLAID CYMRU.**

# POLISI CYFANSODDIADOL A THRAMOR

## EIN GWELEDIGAETH CYMRU ANNIBYNNOL YN CHWARAE RÔL FLAENGAR A RADICAL YN YR UNDEB EWROPEAIDD

Mae Plaid Cymru o'r farn fod Ewrop yn elfen gynyddol bwysig a all o ddifrif gynrychioli ein buddiannau. Rydym felly o blaid cryfhau rôl yr UE mewn trafodaethau rhyngwladol. Credwn y dylai statws wleidyddol Ewrop gael ei hadlewyrchu mewn fforymau rhyngwladol.

O fewn Ewrop, mae Plaid Cymru yn aelod o Gynghrair Rydd Ewrop (CRE). Cynghrair yw hon o bleidiau gwleidyddol pro-Ewropeaidd sy'n cynrychioli cenhedloedd a rhanbarthau Ewrop sydd wedi'u hymrwymo i hunan-lywodraeth, cyfiawnder cymdeithasol, datblygu cynaladwy a democratiaeth heddychlon. Yn Senedd Ewrop ffurfiodd CRE grŵp gwleidyddol nerthol gyda'r Gwyrddion sy'n rhoi i Blaid Cymru lwyfan a rôl gwneud penderfyniadau pwysig yn Ewrop.

Er bod Plaid Cymru o blaid ehangu, rhaid cofio fod Cymru yn colli un ASE o dan y trefniadau newydd. Mae gan bump o'r aelod wladwriaethau newydd boblogaethau llai na Chymru - ond mae ganddynt statws aelodau llawn, sy'n golygu y bydd ganddynt fwy o seddi.

Byddai gan Gymru Annibynol yr un statws â gwledydd bychain eraill - gyda mwy o seddi yn Senedd Ewrop, hawliau pleidleisio llawn yng Ngyngor y Gweinidogion a chynrychiolaeth yn y Comisiwn. Gydag annibyniaeth, gellid goresgyn amharodrwydd yr aelod wladwriaethau i ddatganoli grym i'r rhanbarthau. Byddai pob ASE Cymreig wedyn yn cynrychioli Cymru. Ar hyn o bryd dim ond 2 o 5 ASEau Cymru all roi blaenoriaeth i Gymru ac i fuddiannau Cymru – mae'r gweddill yn cynrychioli pleidiau a buddiannau'r Deyrnas Gyfunol. Nid yw Plaid Cymru yn credu fod hynny'n ddigon da i Gymru – mae Cymru yn haeddu gwell.

Mae'r llanast diweddar ynglyn a'r cyfansoddiad arfaethedig ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd wedi ehangu yn dangos yn glir pam fod ar Gymru angen cynrychiolaeth uniongyrchol yn Ewrop. Bydd Plaid Cymru yn profi unrhyw gynigion am newid cyfansodiadol ar sail sut y byddant yn ffafrio diddordebau Cymru ac atebolrwydd democrataidd.

### Y RECORD

- Mae Plaid Cymru wedi ymladd dros hawl Cymru i gael cynrychiolaeth ddemocrataidd ar y Confensiwn Ewropeaidd ac i gadw ein pum sedd. Gwrthwynebodd yr holl brif bleidiau yn San Steffan ein dadleuon o blaid yr hawliau sylfaenol hyn.
- Mae Plaid Cymru wedi dadlau'n gyson a'n ddi-gyfaddawd o blaid buddiannau Cymru yn Ewrop - yn wahanol i ASEau Llafur sy'n gyson wedi

pleidleisio dros flaenoriaethau'r Blaid Lafur, yn aml iawn yn groes i fuddiannau Cymru.

- Mae Plaid Cymru yn gweithio dros heddwch gan wrthwynebu'r rhyfel yn Irac.
- Mae Plaid Cymru yn cydnabod yr anawsterau a wyneba economi Cymru o fod y tu allan i'r Ewro; rydym yn cefnogi ymuno pan fo hynny'n amserol, a hynny o dan fwy o reolaeth ddemocrataidd a chan warantu y gwarchodir buddiannau economïau llai Ewrop.

## Byddwn yn

1. ***Parhau i frwydro o blaid cynrychiolaeth lawn i Gymru yn Ewrop***
2. ***Parhau i roi i Gymru y math o gynrychiolaeth yn Senedd Ewrop na all unrhyw blaid arall ei chynnig***
3. ***Gwthio i gryfhau democratiaeth sefydliadau Ewropeaidd ar bob lefel trwy hyrwyddo egwyddor datganoliaeth***
4. ***Parhau i ymgyrchu o blaid sefydlu swyddfa Senedd Ewrop yng Nghymru, o'r math sy'n bod yn Yr Alban***
5. ***Parhau i gefnogi Treth Tobin, mynd i'r afael â phroblem dyled yn y byd datblygol a chyrraedd targedau'r Cenhedloedd Unedig ar nawdd tramor (0.7% o GDG)***
6. ***Hyrwyddo masnach deg ryngwladol a gweithio i ddileu dyledion y gweldydd datblygol.***

# YR ECONOMI AC AMCAN UN

**EIN GWELEDIGAETH** **CYMRU FFYNIANUS GYDA ECONOMI GYFIAWN, SY'N CYMRYD EI LE OCHR YN OCHR A'N PARTNERIAID YN EWROP**

Mae rhagolygon Cymru i'r dyfodol yn dibynnu ar weithredu **yn awr** i drawsnewid yr economi o fod yn un sy'n dioddef lefelau uchel o dan-gyflogaeth ac afiechyd i economi gynaladwy sy'n cynnig cydraddoldeb a chyfiawnder i bawb.

Mae Plaid Cymru yn hyderus y gallwn dyfu'n economi flaengar a balch sy'n arwain y byd. Yr hunan-hyder hwn, a'r defnydd effeithiol o adnoddau, gan gynnwys arian Ewropeaidd, fydd sylfaen yr ymdrechion i drawsnewid economi Cymru.

Serch hynny, mae diffyg ffydd y Blaid Lafur ym mhobl Cymru yn gwneud drwg i economi Cymru ac yn peryglu'r cyfleoedd sydd gennym ar hyn o bryd. Ni fydd arian strwythurol ac Amcan Un ond yn gwneud gwahaniaeth parhaol i Gymru os y gwariwn yr arian ar ein hisadeiledd ac ar fentrau cynaladwy. Mae'r Blaid Lafur yng Nghymru ac yn San Steffan yn methu a gwenud hyn.

Y Deyrnas Gyfunol yw un o'r gwladwriaethau mwyaf canoledig yn yr Undeb. Dro ar ôl tro ceisiodd ein llywodraeth Lafur foddi llais arwahanol Cymru yn Ewrop. **Mae'r Blaid Lafur nawr eisiau rhoi arian Ewropeaidd Cymru i San Steffan i'w wario. Adawn ni mo hynny i ddigwydd.**

Dengys record Plaid Cymru ein bod wedi gweithredu er lles pobl Cymru. Yn gyntaf, fe ymgyrchon ni dros arian Amcan 1 i Gymru. Yn ail, fe ennillion ni y frwydr dros arian ychwanegol gan y Trysorlys i wneud yn iawn am fethiant llywodraeth Lafur Llundain i ddarparu arian cyfatebol. Yn drydydd, **cynghorau sy'n cael ei rhedeg gan Blaid Cymru yw'r rhai gorau yng Nghymru am ennill a gwario arian Ewropeaidd ar ran eu poblogaeth.**

Rydym erbyn hyn dros hanner ffordd drwy raglen Amcan Un, ond methodd y weinyddiaeth â gwario'r arian sydd ar gael i Gymru. Dim ond 15% o'r £125m ar gael oedd wedi ei wario erbyn Ionawr 2004. Mae wedi ei adael i gynghorau sy'n cael ei rhedeg gan Blaid Cymru i ddangos beth y gellir ei wneud.

- Mae Cyngor Gwynedd yn arwain wrth greu swyddi dan Amcan 1, gyda dros 3,000 o swyddi newydd, mwy na dwy waith y swyddi a greuwyd gan unrhyw Gyngor dan reolaeth Llafur.
- Caerffili sy'n dod yn ail yn nghynrhair swyddi Amcan 1.
- Rhondda Cynon Taf sydd ar ben y gyngrhair am brosiectau cymeradwy, gyda cyfanswm trawiadol o 94 prosiect.

Heb bwysau uniongyrchol, mae Cymru mewn perygl o golli arian drwy ddadymrywmiad.

Byddai cynnig y CE yn rhoi 85% o werth arian Amcan 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn y rownd nesaf; ond yn nol Llywodraeth Lafur y DG 50% yn unig y dylai fod. **Mae ar Gymru angen cynrychiolaeth gref gan Blaid Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd mantais lawn o arian Ewropeaidd**.

## Y RECORD

- O dan Lafur, y disgwyl yw y bydd ein heconomi yn gostwng i 75% o gyfoeth y Deyrnas Gyfunol erbyn 2010 – mae hyn yn bell iawn o ymrwymiad Llafur i godi ein lefel i 90%.
- Methodd Llafur Cymru â sicrhau arian cyfatebol ac o'r herwydd bu'n rhaid iddynt dorri pob cyllideb arall yng Nghymru i unioni'r diffyg.
- Mae Cynghorau Llafur a Thoriaidd wedi methu'n llwyr â manteisio ar yr arian Amcan Un sydd ar gael ar hyn o bryd.
- **Arweiniodd Cynghorau Plaid Cymru y ffordd wrth wneud y defnydd mwyaf posib o arian Ewropeaidd a chreu swyddi lleol cynaladwy.**

### *Byddwn yn*

1. ***Gweithio i adfywio Cymru a'i gwneud yn bosib a deniadol i bobl ifanc aros yn eu cymunedau.***
2. ***Gweithio dros ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer arian Amcan Un er mwyn llunio fformiwla sy'n rhoi mwy o sylw i anghenion cymunedau ac a fyddai'n rhoi ystyriaeth i amddifadedd cymdeithasol ac amgylchiadau daearyddol ac amgylcheddol.***
3. ***Ymladd i gryfhau polisi rhanbarthol Ewrop a sicrhau fod aelod wladwriaethau yn parchu eu cyfrifoldebau i'r rhanbarthau a'r cenhedloedd oddi fewn i'w ffiniau.***

# BWYD A FFERMIO

## EIN GWELEDIGAETH CYMRU GYNALADWY, GYDA CYNNYRCH CYMREIG O ANSAWDD UCHEL.

Mae bwyd yn llenwi cymaint o'n bywydau beunyddiol ac mae'n briodol felly ei fod hefyd yn rhan ganolog o'n gwleidyddiaeth. Mae newidiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) yn agor cyfnod newydd i ffermwyr. Ar hyn o bryd mae ansicrwydd cynyddol am yr hyn sydd yn y bwyd ei hunan, yng nghyd-destun marchnad fwyd fydeang, yn golygu fod mawr angen gweithredu gwleidyddol i feithrin hyder ymhlith defnyddwyr. Mae'n rhaid i'r defnyddiwr fedru gwneud dewisiadau trwy gyfrwng labelu, olrheinrwydd a monitro safonau ac arferion cynhyrchu. Mae Plaid Cymru hefyd yn awyddus iawn i gefnogi ffermwyr wrth iddynt geisio bodloni'r gofynion cynyddol soffistigedig hyn.

Mae hyrwyddo Cymru yn wlad sy'n cynhyrchu cynnyrch pur o safon byd ac ansawdd aruchel yn galon i'n dyheadau ar gyfer ein diwydiant bwyd. Rhaid manteisio ar ddelwedd lân a gwyrdd Cymru i'n galluogi i ateb yr her sy'n wynebu ffermio.

Mae Senedd Ewrop yn un o'r fforymau mwyaf grymus sydd gennym i gyflawni hyn. Dangosodd y pleidiau mawr na allant sefyll i fyny dros fuddiannau amaethwyr Cymru yn erbyn agenda Tony Blair sy'n ffafrio busnesau mawr yn y Deyrnas Gyfunol. Dim ond Plaid Cymru, all warantu fod Cymru'n cael y sylw sydd ei angen arni.

Mae'r grymoedd sydd gan Ewrop yn golygu y gall bwyso ar lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i weithredu er lles Cymru. Gall Ewrop greu deddfau ar safonau bwyd, labelu bwyd ac olrheinrwydd, safonau prosesu; Ewrop hefyd yw'r sefydliad sy'n cynnig y gefnogaeth ariannol fwyaf i'r gymuned amaethyddol yng Nghymru. **Bu Plaid Cymru yn gweithio'n galed ar bob lefel er lles amaethwyr a defnyddwyr er mwyn creu'r amodau gorau posib a fydd yn creu ffyniant a chynaladwyedd yn ein gwlad.**

### Y RECORD

- Cefnogodd Plaid Cymru y symudiad i gysylltu cymorthdaliadau ag ansawdd y cynnyrch ac i'w gwahanu oddi wrth lefelau cynhyrchu, gan gefnogi taliadau fferm unigol ar sail hanesyddol ac at bwrpas adolygiad canol tymor.

- Cefnogodd Plaid Cymru y bwriad i gysylltu diwygiadau CAP 2006 gyda'r angen i barchu lles anifeiliaid.

- Bu ein ASEau yn flaenllaw yn yr ymdrechion llwyddiannus i ennill statws gwarchodedig i gig eidion ac oen o Gymru.

- Bu Plaid Cymru yn sicrhau fod Cymru'n parhau rhydd o GM.

- Chwaraeodd Plaid Cymru ran flaenllaw ym Mhwyllgor Senedd Ewrop ar Glefyd y Traed a'r Genau.

## Byddwn yn

1. ***Gweithio i symud y pwyslais o blaid cynhyrchwyr lleol a gwrthwynebu'r tueddiadau tuag at roi mwy o reolaeth gorfforaethol ar y system fwyd trwy fynd i'r afael â monopolïau'r archfarchnadoedd a hwyluso trefniadau caffael lleol***

2. ***Pwyso am newid system tymor hir mewn taliadau cefnogaeth sy'n cydnabod cynhyrchu bwyd dan rheolaeth amgylcheddol da, cynaladwyaeth cymunedau, a safonau uchel o les anifeiliaid a rheolaeth ansawdd***

3. ***Parhau i warchod sector y ffermwyr bychain yng Nghymru, gan ei bod yn dra gwahanol i'r sector ffermydd mawrion bwerus yn y DG sydd angen ateb wedi'i deilwra i anghenion Cymru er mwyn osgoi'r gyflafan wledig anorfod a ddaw yn sgîl polisi amaethyddol Llafur***

4. ***Parhau i ymgyrchu'n galed i gadw Cymru'n rhanbarth sy'n rhydd o GM gan nad oes unrhyw astudiaeth wedi dangos eto fod cnydau GM yn ddiogel, yn llesol i'n heconomi nac yn fanteisiol i sector yr amaethwyr na'r defnyddwyr.***

5. ***Cyd-weithio gyda'r rhwydwaith o ranbarthau Ewropeaidd sy'n rhydd o GM er mwyn sicrhau fod cenhedloedd a rhanbarthau yn cyhoeddi eu bod yn rhydd o GM ar sail dewis y defnyddiwr ar effaith amgylcheddol***

6. ***Gweithio i sicrhau fod yr UE yn gweithio dros fasnach deg a safbwynt amlochrog llesol i wledydd datblygol a'r UE fel ei gilydd, gan gynnwys diwedd ar ddadlwytho cynyrch y GE ar farchnadoedd gwledydd datblygol dan ddiwygiadau CAP.***

# GWASTRAFF A'R AMGYLCHEDD

**EIN GWELEDIGAETH** **CYMRU WERDD, BLE MAI AIL-GYLCHU YW'R NORM A BLE MAE GWASTRAFF YN CREU CYFOETH**

Cred Plaid Cymru yn gryf fod rhaid inni weld ail-gylchu gwastraff yn gyfle ariannol ac yn fodd o greu swyddi. Ar hyn o bryd nid yw llywodraeth y DG wedi manteisio ar y cyfle y mae rheoli gwastraff yn ei gynnig ac mae mewn perygl o fethu cyrraedd y targedau a gytunwyd. Mae'r llywodraeth Lafur yn gyson wedi amddifadu awdurdodau lleol o'r adnoddau a'r grymoedd i roi strategaethau cynaladwy ar waith – dyna pam y mae gan y DG record mor wael ym maes ail-gylchu.

Er bod Cymru wedi mwy na dyblu lefelau ail-gylchu gwastraff cartref ers 2001, o 6% i 12%, mae angen ymdrechion pellach os ydym am gyrraedd y targed o 25% ar gyfer ail-gylchu gwastraff domestig erbyn 2005. Dangosodd ein Cynghorau Lleol ymrwymiad i'r targedau hynny, gan ddangos arweiniad hefyd trwy osod isadeiledd cynaladwy a fydd yn troi sector ail-gylchu economaidd hyfyw yn realiti.

Llwyddodd Norwy i gynyddu ei lefelau ail-gylchu deunyddiau pecynnu dur o 0% i 54% mewn blwyddyn. Mae Cynghorau Plaid Cymru yn dangos cymaint y gellir ei gyflawni o bron ddim mewn cyfnod byr iawn. Gan fod Llafur a'r Ceidwadwyr yn anfodlon rhoi i'r mater hwn y flaenoriaeth yr ydym ni'n sicr y mae'n ei haeddu, teimlwn yn gryf mai Senedd Ewrop yw'r ffordd orau o wella record wael Cymru a gweddill gwledydd Prydain yn y maes hollbwysig hwn.

Gyda cynydd yn y swm o gemegau a ganfyddir yn y corff dynol a'r amgylchedd, mae Plaid Cymru wedi bod yn gweithio am well polisi cemegol gan yr UE.

## Y RECORD

- Mae Plaid Cymru yn Ewrop wedi pleidleisio'n gyson o blaid gosod targedau mwy llym ar gynhyrchu gwastraff a lefelau ail-gylchu uwch
- Mae Awdurdodau Lleol Plaid Cymru wedi dyblu eu hail-gylchu yn y flwyddyn ddiwethaf
- Bu Jill Evans yn arwainyr ymgyrch i gau safle claddu sbwriel y Blaid Lafur yn Nantygwyddon yn y Rhondda
- Cred Plaid Cymru yn gryf yn egwyddor y 'llygrydd sy'n talu' ac fe gyfrannodd at y gwelliant pwysig i'r Cyfarwyddyd Cyfrifoldeb Amgylcheddol (ELD) sy'n gofalu nad yw'r trethdalwr yn gorfod talu am lanhau difrod amgylcheddol a achoswyd yn allanol
- Gosododd arolwg gan Gyfeillion y Ddaear y ddau ASEau Plaid Cymru yn gyfartal gyntaf o 685, gyda record 100% am gefnogi'r amgylchedd yn y Senedd Ewropeaidd

## *Byddwn yn*

1. ***Parhau i wrthwynebu'r defnydd o losgyddion, gan fod eu hadeiladu yn golygu na ellir cymryd unrhyw gamau o werth tuag at wella ail-gylchu***

2. ***Gweithio yn barhaus i annog meddylfryd gallwn-wneud ymhlith llunwyr deddfau a'r cyhoedd fel ein bod yn creu dim gwastraff erbyn y flwyddyn 2020***

3. ***Cefnogi lefelau treth uwch ar gladdu sbwriel, er mwyn annog llai o gladdu sbwriel, cynyddu refeniw a gwneud dulliau eraill o reoli gwastraff yn hyfyw a chystadleuol***

4. ***Gweithio i newid deddfwriaeth caffael cyhoeddus yn Senedd Ewrop ac yn y trafodaethau ar GAT, er mwyn galluogi awdurdodau i ffafrio deunyddiau o ffynonellau eilgylch a lleol, gan felly sefydlogi'r farchnad a'r swyddi a grewyd yn y sector hwn***

5. ***Parhau i ymladd dros y safonau uchaf posib o warchodaeth i'n hamgylchedd***

# EIN HAWLIAU

**EIN GWELEDIGAETH** **CYMRU GYFIAWN ANNIBYNNOL, BLE Y MAE POB DINESYDD YN GYFARTAL A BLE Y CAIFF CYFRANIAD UNIGRYW CYMRU I AMRYWIAETH IEITHYDDOL YN EWROP EI DDATHLU**

Mae pob agwedd o'n bywydau yn ddibynnol ar bobl eraill yn parchu ein hawliau. Mae'r wladwriaeth yn addo gwarantu'r hawliau hynny. Pwy bynnag ydych chi, boed yn weithiwr a'u pensiwn wedi eu golli, yn weithreg feichiog, yn geisydd lloches, yn ddyn sy'n nyrsio, yn fam anabl, neu'n was sifil hoyw fe fydd angen ichi gael yr hawliau hynny wedi'u cydnabod a'u diogelu. Ewrop a'r Siarter Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol fydd yn y pendraw yn gwarantu'r hawliau hynny pwy bynnag y byddoch. **Gweithiodd ASEau Plaid Cymru yn galed i geisio sicrhau fod dinasyddion Cymru yn mwynhau'r hawliau llawnaf sydd ar gael drwy ddeddfwriaeth Ewropeaidd.**

## Hawliau'r gweithwyr

Condemnia Plaid Cymru'r ffaith fod yna ar hyn o bryd gagendor rhwng yr hawliau y mae gweithwyr mewn rhannau eraill o Ewrop yn eu mwynhau o'u cymharu â'r rhai sydd ar gael i weithwyr yng Nghymru. Canlyniad hynny yw ei bod ar y cyfan yn rhwyddach ac yn rhatach i gau ffatri yng Nghymru nac yng ngweddill Ewrop. Pe byddai Corus, Friction Dynamex ac ASW wedi dod o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd ni fyddai gwneud pobl yn ddiwaith dros nos a cholli eu pensiynau ddim wedi bod yn bosibl.

Mae llywodraeth Lafur wedi atal cyflwyno yng ngwledydd Prydain y ddeddfwriaeth Ewropeaidd i warchod hawliau'r gweithwyr yr ymladdodd Plaid Cymru mor galed amdani yn Senedd Ewrop.

Mae ASau ac ASEau Plaid Cymru wedi bod yn allweddol yn dod a brwydyr pensiynwyr ASW I sylw'r cyhoedd, boed adref neu ar lefel UE.

### Y RECORD

- 'Enillodd' llywodraeth Blair gyfnod trosiannol o 5 mlynedd i'r DG i ohirio cyflwyno deddfwriaeth bwysig ar ddarparu gwybodaeth ac ymgynghori gyda gweithwyr
- Mae tair plaid y Deyrnas Gyfunol wedi llwyddo i ohirio cyflwyno deddfwriaeth cyflogaeth
- Mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu ymdrechion Llafur i lobïo yn Ewrop i oedi a gwanhau deddfwriaeth sy'n gwarchod hawliau gweithwyr dros dro
- Mae'r prif undebau yn y DG, y GMB, UNISON a'r TUC, oll wedi cefnogi ein safiad ar hawliau gweithwyr

**Byddwn yn**

1. ***Gwrthwynebu galwad Peter Hain yn y Confensiwn Ewropeaidd i wahardd hawliau cymdeithasiad traddodiadol undebau llafur ac i weithredu'n ddiwydiannol***

2. ***Parhau i ymladd i weithredu'n llawn ac yn uniongyth ddeddfwriaeth Ewropeaidd ar hawliau gweithwyr sydd eisoes ar gael yng ngweddill Ewrop ond y mae Tony Blair wedi'i hatal ar gyfer gweithwyr y DG***

3. ***Parhau i gefnogi'r cyfarwyddyd ar hawliau gweithwyr dros dro***

4. ***Cefnogi deddfwriaeth i warchod gweithwyr pan y prynir y cwmni gan gwmni arall, er gwaethaf gwrthwynebiad Llafur***

# Hawliau Ieithyddol

Mae cryfder yr Undeb Ewropeaidd i'w weld yn y brodwaith o amrywiaeth y mae'n ei ymgorffori. Er bod yna 20 iaith gwaith UE swyddogol bellach, mae dros 100 o ieithoedd Ewropeaidd mewn defnydd dyddiol ac mae cymunedau ieithyddol newydd yn ffurfio o hyd. Mae dros 40 miliwn o Ewropeaid yn siarad ieithoedd lleiafrifol. Ar yr ynysoedd hyn yn unig siaredir 6 iaith frodorol ac amcangyfrifir y siaredir 20 iaith arall yn rheolaidd yma yng Nghymru. Mae'r iaith Gymraeg yn fynegiant diwylliannol unigryw mewn Ewrop sy'n gyfoethog ei diwylliannau.

Un o elfennau canolog ideoleg Plaid Cymru yw'r awydd i sicrhau fod yr iaith Gymraeg a'i chymunedau yn goroesi a ffynnu. Mae'r gofal hwn dros y Gymraeg wedi rhoi i Blaid Cymru ymdeimlad ac ymrwymiad dwfn i iawnderau lleiafrifoedd ac i'r angen i sicrhau fod gwahaniaeth yn cael ei ddathlu ac yn cyd-fodoli. Gwelir hyn yn ein record gref ar faterion integreiddio, ceiswyr lloches a'n cysylltiadau hanesyddol â'r mudiad gwrth-apartheid. Mae ein hymdrechion ym maes Iawnderau Dynol a hawliau ieithyddol yn flaenllaw ym mlaenoriaethau ein ASEau.

Ni chydnabyddir y Gymraeg yn un o ieithoedd gweithredol yr Undeb Ewropeaidd, ond ers cychwyn yr 1990au, ariannwyd prosiectau i gefnogi'r iaith ynghyd â ieithoedd lleiafrifol eraill yn Ewrop gan yr Undeb. Yn ystod y blynyddoedd hynny, bu Plaid Cymru yn llwyddiannus iawn yn trefnu cefnogaeth gan yr UE i'r iaith Gymraeg. Ers 2001, fodd bynnag, mae diffyg seiliau cyfreithiol i warchod y Gymraeg wedi effeithio'n andwyol ar y cymorth ariannol hwn.

Cred Plaid Cymru fod gan y 40 miliwn hynny yr hawl i ddisgwyl fframwaith cyfreithiol pendant, a fyddai'n gwneud cymorth ariannol yn hawl. Golygai

hynny fod datganiadau haniaethol am amrywiaeth diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol yn troi'n fwy nac ystrydebau gwag.

## Y RECORD

- Mae Plaid Cymru yn gyson wedi lleisio ein pryderon ynghylch hawliau siaradwyr ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol
- Cefnogodd Plaid Cymru y bwriad i greu Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Amrywiaeth Ieithyddol a Dysgu Ieithoedd ac i sefydlu Rhaglen aml-flynyddol ar gyfer Amrywiaeth Ieithyddol a Dysgu Ieithoedd a fyddai'n cynnwys ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol
- Llwyddodd Cynghrair Rhydd Ewrop i sicrhau y cynhwysir yng ngeiriad y drafft Gyfansoddiad Ewropeaidd gyfeiriad at bwysigrwydd parchu amrywiaeth diwylliannol a ieithyddol cyfoethog yr Undeb

### *Byddwn yn*

1. ***Parhau i ymladd dros hawliau siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn yr Undeb Ewropeaidd***
2. ***Parhau i weithio i sicrhau sylfaen gyfreithiol i gefnogi ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop er mwyn ceisio denu arian Ewropeaidd***
3. ***Parhau i ymladd i osod materion ieithoedd lleiafrifol ynghanol prif ffrwd rhaglenni Ewropeaidd***
4. ***Parhau i godi proffil yr iaith Gymraeg yn Ewrop***
5. ***Parhau i feithrin cynghreiriau gyda chenhedloedd bychain a chymunedau lleiafrifol eraill er mwyn cryfhau hawliau ieithoedd lleiafrifol***